

A dechrau yn y dechrau'n deg:

mae hi'n nos o Wanwyn yn y dref fach

ddileuad, ddiseren,

dywyllled â beibl,

y strydoedd cobl yn ddistaw,

a gwallt wargrwm y cariadon a'r cwningod

fel ar herc anweledig i lawr at y môr pygddu,

ddued ag eirin y fagddu,

lle mae'r cychod pysgota'n hen aflonyddu.

Mae'r tai mor ddall â gwahaddod,

(er fe wêl y gwahaddod yn burion heno,

yn y glynnoedd melfedaidd, trwyngul)

neu'n ddall fel y Capten fan draw'n cyfeillachu

â'r pwmp a'r cloc a'r siopau yn eu galar,

a'r Neuadd Les fel gweddw wylofus.

A chaewyd llen pob llygad tan amrannau trwm y nos.

Ust, mae'r plantos yn cysgu,
a ffarmwr, masnachwr, pysgotwr, pensiywr, postman,
crydd, sgwlyn, meddwyn, tafarnwr, teiliwr, pregethwr,
plisman,
yr ymgymwrwr,
y cocs-fenwod traed hwyaden,
a'r gwragedd cymen.

Merchetach yn gorwedd mewn gwalau meddal,
neu'n llithro i freuddwydio modrwyon a ffrogiau priodas,
a magiod yn forynion
ar eiliau organyddol y gelltydd.

Bechgynnach yn breuddwydio drygioni,
yn marchogaeth y paith ar fwng y nos
neu'n hwylio'n faner ddu ar yr heli.

Delwau duon y ceffylau ynghwsg yn y caeau,
y da yn y beudái,
a'r cŵn ar fuarthau gwlych gan eu ffroenau;
ac mae'r cathod yn hepian yng nghorneli'r encilion
neu'n sleifio'n un llinyn ar y cwmwl o doeon.

Gallwch glywed y gwlyth yn diferu, a'r dref ddistaw'n anadlu.

A'ch llygaid chi yn unig sy'n agored i weld
y dref fach bygddu ymhlyg yn ei chwsg trwm ac ysgafn.